**IS-BWYLLGOR DATBLYGU GWLEDIG**

**RURAL DEVELOPMENT SUB-COMMITTEE**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

15 Ionawr 2010

Annwyl Alun,

**Is-bwyllgor Datblygu Gwledig**

Yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar 14 Ionawr, cefais y fraint o gael fy ethol i dy olynu fel Cadeirydd y pwyllgor hwnnw. Ar y pryd, achubodd aelodau'r pwyllgor ar y cyfle i dalu teyrnged i dy waith fel Cadeirydd ers sefydlu'r is-bwyllgor yng Gorffennaf 2007 a gofynnwyd i mi ysgrifennu atat ar ran y pwyllgor i ddiolch i ti yn ffurfiol am dy waith.

Er gwaethaf ei statws fel Is-bwyllgor gydag aelodaeth fechan, prin fod unrhyw un o bwyllgorau'r Cynulliad wedi cyflawni gymaint dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf ag mae'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig wedi ei wneud. Mae llawer o'r diolch am hynny i ti yn bersonol am arwain y pwyllgor gyda'r fath arddeliad ac ymroddiad.

Yn ystod y dy gyfnod cyhoeddodd yr Is-bwyllgor wyth adroddiad: nifer ohonynt yn rhai arwyddocaol dros ben sydd wedi cael dylanwad pellgyrhaeddol ar bolisi'r llywodraeth. Roedd yr adroddiad ar Dwbercwlosis mewn Gwartheg yn garreg filltir arwyddocaol yn y broses o lunio strategaeth ar gyfer rheoli'r clwyf yng Nghymru. Tynnodd yr ymchwiliad ar Dlodi ac Amddifadedd yng Nghefn Gwlad Cymru sylw at agweddau o ddifreintedd sy'n aml yn cael eu hanwybyddu gan wleidyddion a llywodraeth. Cyfrannodd yr Adroddiad ar Gynhyrchu a Hybu Bwyd Cymreig a'r Adroddiad ar y Diwydiant Llaeth at y pwysau sydd wedi arwain at lywodraeth San Steffan yn cyhoeddi y bydd yn sefydlu Ombwdsmon i ddiogelu buddiannau cynhyrchwyr bwyd yng Nghymru.

Mae'r rhain i gyd yn lwyddiannau y mae'r pwyllgor yn hynod falch ohonynt, a gellid enwi llawer mwy. Yr her i mi fel Cadeirydd newydd y pwyllgor fydd dal ati â'r gwaith da yma a sicrhau fod dylanwad yr Is-bwyllgor yn parhau dros y cyfnod i ddod.

Yn gywir

**Rhodri Glyn Thomas AC**
**Cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8009
E-bost / Email: ruraldev.comm@wales.gsi.gov.uk